

GAIR GAN Y GWEINIDOG



21 ***"'Da iawn ti!' meddai'r meistr, 'Rwyt ti'n weithiwr da, a galla i ddibynnu arnat ti! Rwyt ti wedi bod yn ffyddlon wrth drin yr ychydig rois i yn dy ofal di, felly dw i'n mynd i roi llawer iawn mwy o gyfrifoldeb i ti. Tyrd gyda mi i ddathlu!'*** (Mathew 25: 21"

Dwi'n siwr ein bod ni i gyd yn cofio ambell achlysur pan yn blant pan wnaeth rhywun ddweud "Da iawn ti!". Fel rhiant, dwi bob amser wedi ceisio cofio canmol y meibion oherwydd mae canmoliaeth yn gallu bod yn gymaint o hwb ymlaen. Nid diolch er mwyn i'r person orffwys ar eu rhwyfau yw'r bwriad ond diolch fel sbardun i bobl ddal ati. Mae'r geiriau yma o ddameg y talentau yn Efengyl Mathew, pennod 25 yn un o nifer a ddefnyddiodd Iesu i esbonio'r meddylfryd ac agwedd sy'n perthyn i Deyrnas Nefoedd. Yn y ddameg, mae'r meistr gwaith y mynd i ffwrdd gan adael swm o arian dan ofal tri gwas. Mae'r cyntaf yn cael 5 talent, yr ail yn derbyn dwy a'r cyntaf yn derbyn un dalent. Wedi i'r meistr gwaith ddod yn ôl mae e'n sgwrsio gyda'r tri i weld beth mae nhw wedi'i wneud gyda'r adnoddau a roddwyd i'w gofal. Mae dau ohonyn nhw'n cael canmoliaeth "da iawn ti!" am eu bod nhw wedi rhoi'r arian a gawsant ar waith i wneud elw i'w meistr.

TALENTAU

Os y dywedwn ni y gair 'talent' yng Nghymru, bydd pobl yn syth yn meddwl am ddawn actio neu ganu, chwarae offeryn neu siarad cyhoeddus ac wrth gwrs, mae'r doniau yma'n werthfawr ac yn medru dod â chlod i Dduw wrth eu defnyddio yn yr eglwys ac yng ngwaith Crist. Ond mae na dalentau eraill hefyd – y ddawn i wrando ac i

gydymdeimlo gyda phobl, y ddawn i drefnu digwyddiad neu gymryd cofnodion, i ffonio pobl neu wneud paned o de. Mae hyd yn oed rhoi amser i feddwl am y ffordd orau o wneud pethau yn werthfawr i'r eglwys a mae gweddîo dros holl weithgareddau'r eglwys yr un mor werthfawr hefyd. Mae pob cyfraniad ariannol at waith yr eglwys yn talu am bob math o bethau fel gwresogi, cynnal a chadw'r adeilad neu dalu pregethwyr er enghraifft. Mae na gymaint o ffyrdd o roi'ch talentau ar waith yn Eglwys Iesu Grist.

Mae ganddon ni adnoddau mewn pobl ac mewn adeilad ond rhywsut ar hyn o bryd da ni ddim yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau yna. Rydym yn gallu bod chydig fel y trydydd gwas yn yr hanes wnaeth gladdu'r dalent mewn twll yn y ddaear nes bod y meistr yn dod yn ôl yn hytrach na rhoi y dalent ar waith a hynny oherwydd ei fod yn rhy ofnus a nerfus i fentro.

"25 *Roedd gen i ofn gwneud colled, felly dw i wedi cadw dy arian di'n saff mewn twll yn y ddaear. Felly dyma dy arian yn ôl – mae'r cwbl yna.*"

ADNODDAU

Gwyddom fod pob math o dalentau ganddoch chi sy'n darllen y geiriau yma a byddai medru defnyddio mwy o'r talentau yna yn gwneud byd o wahaniaeth i'n heglwys. Gobeithio hefyd, wrth i chi roi'ch talent ar waith eich bod yn medru cael budd personol o wneud hynny a gwybod bod eich ymdrechion, pa mor fach bynnag yn medru dwyn ffrwyth ym mywyd yr eglwys a bod o fendith i eraill.

DATHLIADAU 2027

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn dathlu 10 mlynedd ers sefydlu Emaus. Yn ystod Mis Mehefin byddwn yn croesawu Bedyddwyr Cymraeg o bob cwr o Gymru i'w cyfarfodydd blynyddol ond hefyd yn cynnal cyfarfodydd dathlu Emaus yn 10 oed. Ddechrau mis Tachwedd, Sul cynta'r Adfent byddwn yn dechrau ar ein taith drwy'r Calendr Gristnogol ac yn dechrau ar daith ein paratoadau ar gyfer 2027 hefyd. Edrychwn ymlaen am eich cwmni a'ch cyfraniad ar y daith.

Carol M Jones

CACENNAU
CAKES

TOMBOLA

BORE COFFI
COFFEE MORNING

RAFFL
RAFFLE

CREFFTAU
CRAFTS

Pobl i Bobl
Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
Supporting Refugees and Asylum Seekers

TY CWRDD Y CRYNWYR
QUAKERS MEETING HOUSE
STRYD Y DEON/DEAN STREET BANGOR

28.11.26. 10.30AM- 12.30PM

MYNEDIAD £3.00
CROESO CYNNES I BAWB
A WARM WELCOME AWAITS

ELUSEN COFRESTREDIG/REGISTERED CHARITY NO:1203828

T4U



Unwaith eto, mae nifer o focsys fflat ar gyfer T4U i'w cael yn y capel ar gyfer y rhai fyddai'n hoffi cymryd rhan yn yr ymgyrch.


Mae'r cyfarfwyddiadau ar y daflen gyda'r bocsys.

Cesglir y bocsys, fore Sul, Tachwedd 8fed i fynd a hwy i Ysgol David Hughes erbyn y 10fed.

Sian Arwel Davies

CYLCH 1 DARLLEN EMAUS

Bydd y Cylch yn cyfarfod Pnawn Gwener 6 Tachwedd am 2 o'r gloch yn y festri. Y llyfr dan sylw fydd BITTER HONEY gan Caryl Lewis




MASNACH DEG

MASNACH DEG

Cynhelir ein bore coffi Masnach Deg nesaf fore Sadwrn Tachwedd 7fed o 10 - 12 o'r gloch.

MAE CROESO FEL ARFER I BAWB. *Catrin*



CLAWR ALBWM GWREIDDIAU

GWREIDDIAU

I ddathlu rhyddhau ei hail albwm, **GWREIDDIAU**, cafwyd perfformiad byw gan y gyfansoddwraig a'r pianydd Gwenno Morgan yn Galeri, Caernarfon, nos Wener, 23ain Hydref. Roedd y perfformiad yn cynnwys piano, synths, ensemble llinynnol a delweddau gweledol o natur. Ar y noson, roedd Gethin Elis yn rhan o'r perfformiad.

Mae gwreiddiau yn albwm sinematig, neo-glasurol, bersonol iawn, sydd â'i gwreiddiau'n ddwfn yn y traddodiad Cymreig, ac yn fyfyrdod ar atgofion, y teimlad o berthyn, a hiraeth.

Mae gwreiddiau yn gyfle i ystyried yr edau anweledig sy'n ein clymu ni i *'adre'*. Ar ôl gadael gogledd Cymru i astudio yn Leeds, a symud i fyw i Lundain, roedd Gwenno'n teimlo fod pellter ond yn cryfhau ei chysylltiad gyda diwylliant, iaith a thirwedd Cymru. Tyfodd yr albwm o'r dynfa honno – y teimlad tawel, parhaus o hiraeth.

Mae'r record yn cynnwys cylchdro o wyth alaw, fesul pâr. Mae pob thema yn ymddangos yn gyntaf yn ei ffurf fwyaf personol – piano unawdol – cyn ail-ymddangos mewn trefniadau cerddorfaol estynedig, wedi eu syntheseiddio. Mae'r gerddoriaeth yn symud fel y cof: yn fregus a chyfarwydd ar y dechrau, cyn blodeuo yn rhywbeth ehangach, sinematig a breuddwydiol.

Ochr yn ochr â hwiangerddi traddodiadol Cymreig a chaneuon gwerin ceir cyfansoddiadau gwreiddiol, i gyd wedi eu ffurfio gan gyfuniad nodweddiadol Gwenno o biano neo-glasurol, sgorio sinematig ag arlliw o harmonïau jazz. Mae'r albwm yn cynnwys cydweithrediadau gyda'r canwr a'r cyfansoddwr caneuon o Gymru, Talulah, a Georgie Ward, dewin synth ac allweddellau Dua Lipa, sy'n ychwanegu gweadau lleisiol ac electronig newydd at fyd sonig y prosiect.

Mae'r albwm ar gael ar Spotify neu Bandcamp:

https://open.spotify.com/artist/5eJNQ9g7xuPNeJMFSuopLL?si=bnC3TYtgSMuOQW5mQf7yEw&utm_source=copy-link

https://gwennomorgan1.bandcamp.com/album/gwreiddiau

ATGOFION AM Y COLEG GWYN

Fel y dywedodd Dr Densil Morgan ar ddechrau'r cyfarfod i nodi a diolch am gyfraniad Coleg y Bedyddwyr hyd at 2026, i lawer oedd yn bresennol roedd yn achlysur chwerw felys. Cyfnod o 130 o flynyddoedd yn dod i ben a'r coleg yn uno o hyn ymlaen â Choleg y Bedyddwyr Caerdydd.



Y PARCHEDIG. EIRWYN MORGAN

Penodwyd fy nhad, Eirwyn Morgan yn Athro yn y coleg yn 1967 i gydweithio'n hapus a'r Prifathro G.R.M. Lloyd hyd 1971, ac fe'i dyrchafwyd yn Brifathro yn dilyn ymddeoliad ei ragflaenydd. Symud i dy'r coleg oedd ein hanes fel teulu yn 1971 felly. Ac am gyfnod difyr o fyw ym Mangor Uchaf gyda Hostel Bala Bangor drws nesaf a holl fyfyrwyr diwynyddol yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn byw yno. Bu fy nhad a'r Athro George John yn ffodus o gael wyth o fyfywyr o dan eu gofal yn hanner cyntaf y saithdegau. Gan nad oedd fy nhad yn medru gyrru car, fi fu yn ei hebrwng i gyfarfodydd ordeinio Olaf Davies (*Bethel Mynachlog-ddu*), Peter Thomas (*Rhydwilym*), Huw Tudur Jones (*Cwm Gwaun*), Tecwyn Ifan (*Sanclêr*), Hywel Thomas (*Newton a Blaenllyn*). Gallwch weld felly i mi ddod yn gyfarwydd iawn â'r hud ar Ddyfed. Gan fy mod wedi mynd i Aberystwyth i'r Brifysgol fy hun yn hydref 1974, ni chefais y cyfle i fynd i gyfarfod ordeinio Eiran Wyn (*Hermon a'r Star*) yn Sir Benfro na Denzil John (*Caerffili*).

Roedd cryn dipyn o fynd a dod gan y myfyrwyr i dy'r coleg a phleser pur oedd cael bod yn rhan o'r hwyl. Roedd berw gwleidyddol mawr yn y cyfnod o gwmpas colegau Bangor. Roedd y myfyrwyr diwynyddol yn weithredol iawn yn ymgyrchoedd Cymdeithas yr iaith. Cofiaf un penwythnos yn arbennig iawn. Roedd achos traddodi yn cael ei gynnal yn Llys y Goron, Caerfyrddin ar gyhuddiadau o gynllwyn yn erbyn wyth o arweinyddion Cymdeithas yr laith ynghylch yr ymgyrch tynnu arwyddion uniaith Saesneg. Bu tarfu mawr ar yr achos a chafodd Olaf, Tecwyn Ifan, Denzil John ac Eirian Wyn eu carcharu dros benwythnos gan y barnwr am ddirmyg llys.

Gorchwyl fy nhad felly oedd ffonio'r eglwysi lle roedd y darpar weinidogion hyn i fod i bregethu y Sul hwnnw! Rhyw flwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach, carcharwyd Tecwyn Ifan am wrthod talu dirwy a threuliodd ei ddedfryd o dri mis yng ngharchar Caerdydd.

Roedd fy nhad yn gwbl gefnogol i safiadau gwleidyddol ei fyfyrwyr a gallodd drefnu cydweithio â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd i sicrhau bod Tecwyn yn cael parhau a'i astudiaethau dan glo.

Braf oedd cael gweld sawl wyneb cyfarwydd yn y cyfarfod yn Emaus a chael rhannu atgofion o sawl cyfnod yn hanes y Coleg. Mae gan y Coleg a'r athrawon a'r myfyrwyr a'i cynhaliodd le anrhydeddus iawn yn hanes enwad y Bedyddwyr a'r traddodiad anghydffurfiol Cymreig.

Dylan Morgan

















Rhai oedd yn cymryd rhan yng nghyfarfod dathlu cyfraniad Coleg y Bedyddwyr, Bangor

Dydd Gweddi Merched Bedyddiedig y Byd 2026

Cynhelir oedfa Dydd Gweddi Merched Bedyddiedig y Byd
yn Emaus, Bangor, eleni
am dau o'r gloch y prynhawn
Dydd Llun, Tachwedd 2il.

Y thema fydd ***"Byw'r Newyddion Da: Ffydd ar Waith"***
yn seliedig ar Iago 2.17 :
"Felly hefyd y mae ffydd ar ei phen ei hun,
os nad oes ganddi weithredoedd, yn farw."
Mi fydd chwiorydd o wahanol eglwysi Cymanfa Arfon yn cymryd rhan,

Croeso cynnes i bawb



BORE COFFI BUGEILIAID Y STRYD BANGOR

Bore Dydd Sadwrn, Tachwedd 21ain,
ym Merea Newydd o 10 tan 12.
Stondinau amrywiol.
Croeso cynnes i bawb

Gair o Gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom yn ystod mis Hydref am farwolaeth Rhodri, mab Jennifer a'r diweddar Athro Gwyn Thomas. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Jennifer, i Anwen cymar Rhodri ac i Ceredig a Heledd yn eu colled a'u galar.

MORRIS WILLIAMS (*NICANDER*) (1809-1874)


Wrth grwydro o gwmpas Cadeirlan Bangor yn ddiweddar sylwais fod y pulpud marmor ysblennydd (ar yr ochr chwith o flaen y côr) wedi ei gyflwyno er cof am yr emynydd Nicander, sef Morris Williams. Ef yw awdur yr emyn "Molwch Arglwydd nef y nefoedd" (Rhif 82 C. Ff.)

Ganwyd Morris yng Nghaernarfon ond symudodd y teulu i Langybi, Eifionydd, yn fuan. Er iddo gael ei godi i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Wladol, fel yr oedd hi bryd hynny, mae ganddo gysylltiadau gyda'r Anghydffurfwyr. Roedd ei fam, Sarah, nid yn unig yn chwaer i Pedr Fardd ond hefyd yn forwyn i Dewi Wyn o Eifionydd cyn priodi. Nid yn unig hynny ond roedd ei dad, William Morris, wedi bod yn was i Robert ap Gwilym Ddu. Felly dim rhyfedd i Morris troi at farddoni! Bu'n cystadlu ac yn beirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac enillodd y gadair yn Aberffraw yn 1849 am awdl ar "Y Greadigaeth". Heblaw am gyfansoddi emynau bu hefyd yn cynorthwyo gydag adolygiad o'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn y Gymraeg a chyhoeddodd cyfieithiad Cymraeg o Chwedlau Aesop.

Ar ôl cael ei ordeinio yn offeiriad yn Llanelwy yn 1836, symudodd Nicander i esgobaeth Bangor a threuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa fel clerigwr yn sir Fôn. Bu farw yn Llanrhuddlad ac yno y claddwyd. Daeth un o'i feibion, William Glun Williams, yn brifathro Ysgol Friars, Bangor, o 1879 i 1919.

Mae dau emyn arall ganddo yng Nghaneuon Ffydd. Fe wna i adael i chi chwilio amdanynt - nid ydynt mor adnabyddus ag y mae "Molwch Arglwydd Nef y Nefoeddd"!

Eleri Lloyd Jones









Nos Sadwrn Medi 19, aeth criw o Emaus, sy'n aelodau o Encôr, draw i'r Gadeirlan yn Llanelwy i ganu'r Requiem gan Faure.

Braint oedd cael bod yna yn canu y darn hyfryd
i gynulleidfa deilwng iawn.

Hon oedd noson olaf Yr Ŵyl Gerddorol.

(Doedd Eurfryn ddim ar gael i gael tynnu ei lun,
ond roedd yntau wedi gwneud ei ran yn ystod y perfformiad.)

Mae ein diolch yn fawr i Eleri Lloyd Jones
am ysgogi cyfranwyr a chasglu deunydd
ar gyfer paratoi y rhifyn yma

Ar gyfer rhifyn Rhagfyr 2026
dylid gyrru'r holl ddeunydd
erbyn y Sul 22 Tachwedd
i Elen Lansdown
a fydd yn golygu rhifyn Rhagfyr 2026:

rhif ffon : 364843
ebost : *elen.lansdown@icloud.com*

gyda copi (cc) i'r Negesyddd - ebost : *negesydd@btinternet.com*

TAITH GERDDED HEDDWCH YNG NGHAERDYDD

Yn ystod cyfarfodydd Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghaerdydd eleni, trefnwyd taith gerdded o gwmpas y ddinas yn ymweld â mannau yn ymwneud a heddwch ar y bore Sadwrn. Er ei fod yn dywydd eithriadol o boeth, roedd yn braf cael cyfle i ymweld â rhannau o'r brifddinas 'roeddwn erioed wedi eu gweld o'r blaen. Nid oes gofod i restru popeth a welsom ar ein taith ond dyma'r uchafbwyntiau.

COFEB JOHN BATCHELOR (1820-1883)

Wrth gerdded i fyny'r Ais pasiwyd y gerfddelw yma i ddyn busnes lleol a fu'n gynghorydd Rhyddfrydol ac yn faer y ddinas. Galwyd ef yn **"Cyfaill Rhyddid"** oherwydd ei wrthwynebiad i gaethwasiaeth a'i ymdrechion diflino i wella ansawdd bywyd pobl gyffredin Caerdydd.

NEUADD Y DDINAS A'R AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

Yr ochr arall i Boulevard de Nantes daethom at Neuadd y Ddinas a'r adeiladau ysblennydd bob ochr iddo, sef Llys y Goron a'r Amgueddfa Genedlaethol. Er na chawsom gyfle i fynd i mewn i'r Neuadd, atgoffwyd ni bod cerflun efydd Comin Greenham yn y cyntedd, yn dangos mam a'i phlentyn. Cafodd ei ddadorchuddio yn 2003 gan Jill Evans ASE i gofio'r merched hynny aeth ar yr orymdaith gyntaf o Gaerdydd i Gomin Greenham ym 1981. Dengys hyn ddyhead parhaol merched Cymru dros heddwch. Ym 1909 cynhaliwyd y bumed Gyngres Heddwch Genedlaethol yn y Neuadd - eto yn dangos ymroddiad a diddordeb Cymru yn y mudiad heddwch.

GERDDI ALEXANDRA

Yma mae Cofeb Rhyfel Genedlaethol Cymru yn coffau'r Cymry a fu farw yn y ddau Ryfel Byd. Dyluniwyd y gofeb gan Ninian Comper ac fe'i dadorchuddiwyd ym 1928 gan Dywysog Cymru - a ddaeth yn ei dro yn Frenin Edward VIII. Ymysg y cofebion eraill mae un yn coffau'r rhai o Gaerdydd a laddwyd yn Rhyfel y Malvinas (Falklands) ac un i'r gwirfoddolwyr o Gymru a gymerodd rhan yn Rhyfel Cartref Sbaen. Ond yr un mwyaf diddorol i mi oedd Cofeb yr Holocost sy'n coffau Raoul Wallenberg (1912-?), Iddew o Sweden a achubodd fywydau miloedd o Iddewon yn Hwngari yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Diflannodd ar ôl cael ei arestio gan y Sofietiaid yn 1945 ac ni wyddys hyd heddiw beth oedd ei ffawd derfynol.

GARDD HEDDWCH GENEDLAETHOL CYMRU

(tu ôl i'r Deml Heddwch)

Sefydlwyd yr Ardd yn 1988 gan Robert Davies, un o Ymddiriedolwyr Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, i ddathlu hanner can mlynedd ers agor y Deml ac ar gynllun logo'r Cenhedloedd Unedig. Ynddo mae sawl cofeb, gan gynnwys un i Helen Thomas, merch ifanc 22 oed fu farw ar Gomin Greenham yn Awst 1989 drwy gael ei tharo gan gerbyd oedd yn cludo ceffylau'r heddlu. Mae un arall yn coffau'r heddychwr mawr George M. L. Davies a hefyd gwrthwynebwyr cydwybodol dinas Caerdydd a wrthododd ymladd ar sail egwyddor yn y ddau ryfel byd.

Y DEML HEDDWCH

Syniad Yr Arglwydd David Davies, Llandinam (1880-1944) oedd y Deml Heddwch. Roedd ei brofiadau yn y Rhyfel Byd Cyntaf tu ôl i'w ymdrechion dros heddwch. Cafodd y syniad o gyfuno'r ddau ddelfryd o heddwch rhyngwladol ac iechyd mewn un adeilad. Yn 1917 sefydlodd Gymdeithas Cynghrair y Cenhedloedd Rhydd a'r flwyddyn ganlynol unodd y gymdeithas â Chymdeithas Cynghrair y Cenhedloedd i greu Undeb Cynghrair y Cenhedloedd. Ar ddiwedd yr 1920au trafodwyd y syniad o greu pencadlys newydd ar gyfer Cymdeithas Cofeb Genedlaethol Cymru ym Mharc Cathays. Gwelodd David Davies ei gyfle i greu swyddfeydd ar gyfer Undeb Cynghrair y Cenhedloedd a Theml Heddwch. Cyfrannodd y rhan fwyaf o'r arian tuag at adeiladu'r Deml ac fe wnaeth ei chwiorydd, Gwendoline a Margaret Davies, ddodrefnu'r adeilad. Defnyddiwyd defnyddiau crai o wahanol wledydd er mwyn pwysleisio natur ryngwladol y mudiad heddwch.



——Mrs. Minnie James performing the opening ceremony——

Agorwyd y Deml yn swyddogol gan Mrs Minnie James o Ddowlais ar 23 Tachwedd, 1938 ar ran merched Cymru.

Fe gollodd hi dri mab
yn y Rhyfel Mawr.

ELERI LLOYD JONES



AMGUEDDFA GENEDLAETHOL



NEUADD Y DDINAS




TEML A GARDD HEDDWCH



JOHN BATCHELOR



TEML HEDDWCH



GERDDI ALEXANDRA

SIOE FFASIWN 'ACHUB Y PLANT'

Cynhelir Sioe Ffasiwn
brynhawn Sul, Tachwedd 15fed
am 3 o'r gloch yng Nghanolfan Porthaethwy.

Yn arddangos eu casgliad
o ddillad cynnes a dillad Nadoligaidd
fydd 'Butterfly Boutique', Porthaethwy.

Tocynnau
(o 'Butterfly Boutique neu oddi wrth Elen Lansdown)
yn £15 i gynnwys lluniaeth ysgafn.

Elw tuag at 'Achub y Plant'.

Achub y Plant

OEDFAON A CHYFARFODYDD TACHWEDD 2026

Tachwedd 1af	Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog
Tachwedd 6ed	Cylch Darllen Emaus yn y festri am 2pm i drafod ***Bitter Honey*** gan Caryl Lewis
Tachwedd 7fed	Masnach Deg yn y festri 10am-2pm
Tachwedd 8fed	Oedfa anffurfiol pob oed
Tachwedd 12fed	Paned a Sgwrs yn y festri 3pm tan 4pm
Tachwedd 15fed	Gwasanaeth dan ofal y Parchedig Gwyndaf Jones
Tachwedd 22ain	Oedfa dan ofal y gweinidog
Tachwedd 29ain	Sul croeso


WOMEN'S NIGHT

NOSON O FWYD, DAWNS A CHÂN

AN EVENING OF FOOD, DANCE AND MUSIC

CROESO I CHI A'R PLANT!
ALL WOMEN AND CHILDREN WELCOME

THURSDAY 12. 11. 2026
6:00 - 8.00 P.M IN EMAUS



Pobl i Bobl
Cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
Supporting Refugees and Asylum Seekers

CORNEL POSAU GARETH

ATEB I BOS HYDREF
6 yw'r rhif lleiaf posibl



POS TACHWEDD


Beth yw arwyddocâd y geiriau hyn?

Pai.Y gair a guddia ryfeddodau lu

Fedrwch chi lunio brawddegau tebyg?

Bydd yr ateb / eglurhad yn Negesydd Rhagfyr

Os yr ydych wedi datrys y gamp, anfonwch eich ymdrechion i Gareth Ffowc Roberts neu'r Negesydd!



Diolch i Delyth ac Elen am roi blodau ar gyfer mis Hydref.

Dyma'r rhestr ar gyfer
MIS TACHWEDD

1 Tachwedd :
Sian Marland

8 Tachwedd :
Beth Jones

15 a 22 Tachwedd :
Alwen Nicholson

Diolch i bawb sydd wedi rhoi blodau dros y flwyddyn.

Mae rhestr newydd ar gyfer 2027 yn y cyntedd.

Kath a Meriel
merielparry@gmail.com

CYFEIRIADUR EMAUS

ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

BMS:
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

GWEINIDOG:
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

MASNACH DEG:
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

NEGESYDD - CYSODI:
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

NEGESYDD - ROTA GOLYGU:
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

PANED A SGWRS
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

ROTA BLODAU
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

ROTA'R ORGAN:
Enid Griffiths
712726

SWYDDOG DIOGELU:
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

TI A FI:
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

TRYSORYDD:
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

YSGRIFENNYDD ARIANNOL:
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243